



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN  
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E [ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk)

17 Gorffennaf 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Mawr obeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd, fel aelodau o gymuned yr ysgol, yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel. Diolch yn fawr am eich cydweithrediad yn ystod misoedd diwethaf y cyfnod clo.

Yr wythnos hon, carwn eich hysbysu o'r isod:

### **DIWEDDARIAD PENWEDDIG AR SAFLE HUGH OWEN**

Unwaith eto'r wythnos hon, mae'r trefniadau wedi mynd yn hwylus. Diolchwn i chi fel rhieni a gwarcheidwaid am gydymffurfio gyda'n gofynion tra ein bod wedi ein hadleoli i safle Hugh Owen. Mae wedi bod yn brofiad ardderchog i'r disgyblion i brofi bywyd ar gampws Prifysgol. Fel staff, gobeithiwn fod hyn wedi cynyddu'r ymdeimlad o uchelgais a hyder ymysg ein disgyblion ar gyfer eu taith addysgol yn y dyfodol. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i Brifysgol Aberystwyth am eu cyd-weithrediad amhrisiadwy yn ystod y cyfnod hwn ac am holl gymorth a chefnogaeth aelodau staff Prifysgol Aberystwyth.

### **CYNLLUNIAU AR GYFER MYND NÔL I'R YSGOL YM MIS MEDI**

Ar ddydd Llun, 13.07.20, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru canllawiau wedi eu diweddarau er mwyn cefnogi ysgolion i groesawi ddisgyblion nôl ym Medi. Mae'r canllawiau diwygiedig hyn yn adlewyrchu'r cyngor meddygol a gwyddonol diweddaraf ac mae'r cyngor yn cynnig llwybr canol rhwng canllawiau cenedlaethol strwythuredig a hyblygrwydd lleol. Mae'r canllawiau hyn yn nodi pa flaenoriaethau dysgu a ddylai barhau i fod yn gyson, ni waeth ble mae'r dysgu'n cael ei gynnal. Mae'r canllawiau yn cefnogi ei ysgol wrth sicrhau bod disgyblion yn parhau i elwa ar gwricwlwm eang a chytbwys a'u bod yn parhau i wneud cynnydd wrth ddysgu.

Am wybodaeth bellach parthed y canllawiau newydd er mwyn cefnogi dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, gweler isod y canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a chanllawiau dysgu tymor yr hydref a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 13.07.20.

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN  
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E [ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yhmholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk)

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Lleol ar gyfer trefnu agor yr ysgol ym mis Medi ar safle Penweddig. Dros yr wythnosau nesaf, cynhelir cyfarfodydd gydag Uwch Swyddogion yr Awdurdod Lleol er mwyn cyflwyno a thrafod ein cynlluniau i agor ar safle Penweddig ar gyfer pob plentyn. Yn ogystal, cynhelir cyfarfod gyda'r Bwrdd Llywodraethol ac aelodau staff yr ysgol er mwyn cyflwyno ein cynlluniau ar gyfer mis Medi a thrafod materion gweithredol.

Wrth ddychwelyd i safle Penweddig ym Medi, ein blaenoriaeth yw sicrhau diogelwch ein disgyblion a'n staff. Cynhelir asesiad risg safle cyn i ni ddychwelyd i'r safle ym Medi yn ogystal ag ymweliad safle gan Uwch Swyddogion y Sir a Swyddog Iechyd a Diogelwch.

Rydym yn ymwybodol gall y sefyllfa genedlaethol newid dros yr Haf.

## DISGYBLION YN DYCHWELYD YM MIS MEDI

Yn ystod y bythefnos gyntaf, bydd disgyblion yn dychwelyd yn raddol i'r ysgol fel a ganlyn:

03.09.20	<b>Disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 12 yn unig</b>
04.09.20	<b>Disgyblion Blwyddyn 7, Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn unig</b>
07.09.20	<b>Disgyblion Blwyddyn 7, Blwyddyn 12, Blwyddyn 13 a Blwyddyn 11 yn unig</b>
08.09.20	<b>Disgyblion Blwyddyn 7, Blwyddyn 12, Blwyddyn 13, Blwyddyn 11 a Blwyddyn 10 yn unig</b>
09.09.20	<b>Disgyblion Blwyddyn 7, Blwyddyn 12, Blwyddyn 13, Blwyddyn 11, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 9 yn unig</b>
10.09.20	<b>Blwyddyn 7, Blwyddyn 12, Blwyddyn 13, Blwyddyn 11, Blwyddyn 10, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 8</b>
11.09.20	<b>Blwyddyn 7, Blwyddyn 12, Blwyddyn 13, Blwyddyn 11, Blwyddyn 10, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 8</b>

Bydd disgyblion yn cyrraedd a gadael yr ysgol drwy fynedfeydd penodol ar gyfer eu blwyddyn – manylion pellach i ddilyn yn ystod yr haf.

Cymerir tymheredd pob disgybl wrth iddynt gyrraedd yr ysgol.

Oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch, ni fydd safle'r ysgol ar agor i ddisgyblion nes **8:30 yb**

## YR AMGYLCHEDD YSGOL A PHARATOI AR GYFER Y 'NORM NEWYDD' YM MIS MEDI

O ganlyniad i ganllawiau gweithredol gan Lywodraeth Cymru'r wythnos hon a chanllawiau diwygiedig gan yr Awdurdod Lleol parthed dychwelyd i'r ysgol ym Medi,



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN  
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E [ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk)

mae'n glir fydd amgylchedd yr ysgol yn edrych ac yn teimlo'n dra gwahanol i staff a disgyblion ym Medi, er mwyn sicrhau diogelwch ein disgyblion a'n staff. Ein hegwyddor ym mis Medi fydd lleihau'r nifer o gysylltiadau rhwng staff a disgyblion a lleihau'r nifer o gysylltiadau mae pob disgybl yn cael yn ystod y diwrnod ysgol, er mwyn lleihau trosglwyddiad yr haint. Byddwch yn derbyn gwybodaeth bellach yn ystod yr haf a byddwn yn gwneud ffilm er mwyn i chi ymgyswngu gyda gofynion y safle cyn i chi ddychwelyd ym Medi.

Fel ysgol, bydd angen i ni gynllunio am y posibilïad o "lockdown" lleol a sut i sicrhau parhad mewn addysg o fewn fframwaith mwy eang o gyfyngiadau lleol.

## **MESURIADAU ANGENRHEIDIOL MAE'R YSGOL YN RHOI AR WAITH AR GYFER MIS MEDI**

### **LLEIHAU'R CYSWLLT**

Fel ysgol, byddwn yn gwneud gymaint â phosib i leihau'r cyswllt rhwng disgyblion, osgoi cyswllt rhwng grwpiau gymaint â phosib ac osgoi cymysgu rhwng disgyblion a staff. Ein hegwyddor holl gyffredinol fydd lleihau'r nifer o gysylltiadau rhwng staff a disgyblion er mwyn lleihau'r potensial o ledu haint, ble'n ymarferol bosib.

### **TREFNIANT AR GYFER DISGYBLION CA3, CA4 a CA5**

#### **CA3**

Bydd blynyddoedd 7, 8 a 9 wedi eu trefnu mewn i ddosbarthiadau sefydlog o gwmpas 30 disgybl drwy'r dydd. Bydd pob grŵp yn aros mewn un ystafell benodol drwy'r dydd. Bydd CA3 yn derbyn pob gwrs o fewn y grwpiau yma.

#### **CA4**

Ar gyfer blwyddyn 10, 11, 12 a 13, y grŵp cyswllt fydd grŵp disgyblion y flwyddyn er mwyn ein galluogi i ddarparu gofynion y cwricwlwm yn llawn ac i'r disgyblion dderbyn gwrsi gan athrawon pynciol. Bydd disgyblion CA4 yn cael eu grwpio yn addas mewn dosbarthiadau sefydlog ar gyfer y craidd, ac yn eu dosbarthiadau arferol wrth iddynt ddilyn eu dewisiadau unigol.

#### **CA5**

Bydd CA5 yn parhau yn eu dosbarthiadau pynciol arferol.

Er mwyn sicrhau diogelwch ein disgyblion a'n staff, bydd grwpiau o ddisgyblion yn derbyn amser egwyl a chinio ar adeg benodol ac ni fydd y grwpiau yn cymysgu gyda disgyblion eraill.



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN  
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E [ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yhmholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk)

Bydd parthau penodol o fewn yr ysgol wedi eu clustnodi ar gyfer grwpiau disgyblion penodol a bydd y disgyblion yn aros o fewn eu hardaloedd penodol.

Bydd ystafelloedd dysgu wedi eu trefnu gyda'r desgiau yn wynebu'r blaen.

Bydd staff yn cadw 2m o bellter rhwng disgyblion ac aelodau eraill o staff, ble'n bosib.

## ATALIAD

Byddwn yn ymgymryd â'r isod:

- Parhau i gymryd tymheredd disgyblion wrth iddynt gyrraedd yr ysgol, wedi ei selio ar drothwy diwygiedig o 37.8 gradd (hy 37.8 gradd neu drosodd- danfonir y disgyblion adref)
- Lleihau'r cyswllt rhwng unigolion ac yn cynnal ymbellhad o 2m ble'n bosib rhwng athrawon a disgyblion
- Lleihau'r cyswllt gydag unigolion sydd yn sâl drwy sicrhau bod y rheiny sydd gyda symptomau COVID-19 neu gyda rhywun yn eu cartref sydd gyda symptomau, ddim yn mynychu'r ysgol
- Hybu pwysigrwydd hylendid dwylo trylwyr hyd y gellir ei ragweld. Disgwylir i ddisgyblion olchi dwylo yn gyson, pan maent yn cyrraedd yr ysgol, yn dychwelyd wedi amser egwyl, pan ydynt yn newid ystafell a chyn bwyta ac ar ôl bwyta
- Sicrhau hylendid resbiradol da drwy hyrwyddo ymagwedd "Ei ddal, ei roi yn y bin, ei ladd"
- Darparu toiledau ar wahan i flynyddoedd ysgol. Rhaid i'r disgyblion gael eu hannog i olchi dwylo'n drylwyr wedi iddynt fod i'r tŷ bach
- Rhoi rhaglen glanhau mewn lle, sy'n sicrhau bod arwynebau sydd yn cael eu cyffwrdd yn gyson yn cael eu glanhau yn ogystal ag unrhyw ardaloedd sydd yn cael eu rhannu wedi iddynt gael eu defnyddio gan grwpiau gwahanol
- Sicrhau awyriad priodol, ble'n bosib
- Ymgymryd â strategaeth 'Profi, Orlhain, Diogelu'
- Sicrhau system un-ffordd drwy'r ysgol
- Trefnu pob blwyddyn i gyrraedd y safle drwy fynediad blwyddyn benodol (manylion i ddilyn)



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN  
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E [ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk)

- Trefnu pob blwyddyn i adael y safle drwy fynediad blwyddyn benodol ar adeg benodol (manylion i ddilyn)

## OFFER DISGYBLION

Ar gyfer mis Medi, bydd angen i'r disgyblion sicrhau yn ddyddiol bod ganddynt :

- Becyn bwyd (yn cynnwys pecyn iâ ). **Ni fydd y ffreutur ar gael nes 14.09.20.**
- Potel dŵr mawr eu hunain wedi ei labelu gydag enw'r disgybl – noder nid oes modd i unrhyw ddisgyblion lenwi potel dŵr ar y safle dŵr oherwydd rhesymau hylendid.
- Câs pensiliau
- Cot i'w gadw yn y bag ysgol, o dan y ddesg, tra yn yr adeilad)
- Eli haul a het haul (ni fydd modd i ni ddarparu eli haul)

Mae angen sicrhau bod y disgyblion wedi paratoi ynghynt er mwyn dod â'r offer uchod angenrheidiol uchod i'r ysgol yn ddyddiol. O hyn ymlaen, ni fydd yn ymarferol benthg offer gan ffrindiau ac ni fydd yr ysgol yn gallu darparu offer.

Gall dysgwyr a staff fynd a llyfrau ac adnoddau sydd yn cael ei rannu adref ond dylid osgoi unrhyw rannu di-angen, yn enwedig pan nad yw hyn yn cyfrannu at addysg a datblygiad y dysgwr.

## GWISG YSGOL AR GYFER MIS MEDI

Anogir ysgolion i ddychwelyd i'w polisiau gwisg ysgol arferol yn nhymor yr hydref. Ym mis Medi, byddwn yn glynu at ein disgwyliadau fel nodir isod. Er hyn, yn yr hinsawdd bresennol, **ni chaniateir** disgyblion y 6ed Dosbarth i wisgo tei.

<b>Blynyddoedd 7-11</b>
Crys chwys <b>ddu</b> , gwddf crwn gyda bathodyn yr ysgol
Crys polo Penweddig gyda bathodyn yr ysgol (gwyrdd, gwyn neu goch)
Trowsus <b>du</b> , hir, plaen ffurfiol – <b>dim siorts yn y gaeaf</b> ( Tymor yr haf yn unig) Sgert ddu ffurfiol hyd at y pen-glin
Sanau gwyn neu ddu Teits du plaen
Esgidiau du plaen, sydd yn derbyn polish- dim logos Ni chaniateir “bŵts” nac esgidiau cynfas
<b>Gwisg 6ed dosbarth</b>
Siwmpwr /cardigan Penweddig gyda bathodyn yr ysgol
Crys gwyn / du ne blowsen wen /ddu



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN  
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E [ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yhmholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk)

### Cit Addysg Gorfforol

Crys t glas gyda logo'r ysgol

Siorts nefi

Gwerthfawrogir felly bob ymdrech ar ran y rhieni i sicrhau bod eu plant yn gwisgo'r wisg gywir a bod y rhieni'n cefnogi'r ysgol yn ein hymdrech i sicrhau ymddangosiad trwsiadus gan bob disgybl, drwy sicrhau nad yw'r disgyblion yn gwisgo dillad "ffasiwn" sy'n anaddas i fywyd dyddiol yr ysgol. **Mae hyn yn cynnwys trowsus tynn megis jeggings/leggings, sgertiau byr a thynn, trowsus steil jeans neu ddefnydd denim a gwisgo "trainers" – ni chaniateir dillad o'r math yma fel rhan o'r wisg ysgol o 03.09.20 ymlaen.**

### ADRODDIADAU DIWEDD BLWYDDYN

Bydd disgyblion blwyddyn 7, 8, 10 a 12 yn derbyn eu hadroddiadau diwedd blwyddyn ar ddechrau'r wythnos nesaf drwy e-bost.

### FFARWELIO GYDA STAFF

Rydym yn ddiolchgar iawn am wasanaeth, arweiniad ac ymroddiad y staff fydd yn ein gadael y tymor hwn sef Mrs Elizabeth Pritchard-Evans (Gwyddoniaeth), Miss Hawis Lloyd (Arweinydd Cynnydd a Lles 6&7 ac athrawes Gymraeg), Mr Tom Williams (Pennaeth y Gyfadran Fathemateg) a Miss Sioned Jones (Adran Gynnal Dysgu). Mae pob un ohonynt wedi cyfrannu'n sylweddol at fywyd yr ysgol. Dymunwn yn dda iddynt at y dyfodol.

### FFARWELIO GYDA DISGYBLION BLWYDDYN 11 A BLWYDDYN 13

Mae'n destun tristwch mawr inni nad oeddem wedi medru ffarwelio â blynyddoedd 11 ac 13 yn y modd arferol yn dilyn digwyddiadau digynsail y misoedd diwethaf. Gobeithiwn weld nifer fawr o'n disgyblion blwyddyn 11 yn dychwelyd atom ar gyfer y Chweched dosbarth, a dymunwn bob llwyddiant i'r rheiny fydd yn cymryd llwybrau eraill. Dymunwn y gorau hefyd i ddisgyblion blwyddyn 13 sydd yn ein gadael ni am addysg uwch neu fyd gwaith, ac yn diolch yn ddiffuant iddynt am eu cyfraniad

gwerthfawr i gymuned yr Ysgol drwy gydol eu hamser gyda ni. Rydym ni'n gobeithio yn fawr y bydd cyfle i ffarwelio â chi gyd yn swyddogol maes o law.

Gweler isod lincs i'r fideos gan staff i ddisgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13

Blwyddyn 11 - <https://spark.adobe.com/video/TDP7mlaKNxGsl>

Blwyddyn 13 - <https://spark.adobe.com/video/HPWWEX7STFAg9>



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN  
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E [ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk)

## **PENODIADAU DIWEDDAR**

Estynnwn groeso i'r holl staff newydd fydd yn ymuno gyda ni ym Medi 2020.  
Llongyfarchiadau i'r canlynol:

Dr Rhodri Thomas	Pennaeth
Beth Mars Lloyd	Gwyddoniaeth
Sam Jones	Gwyddoniaeth
Suki Morys	Saesneg
Carol Izri	Ffrangeg
Sion Alun Jenkins	Cymraeg
Wil Bowen	Arweinydd Cynnydd a Lles Dros Dro 8&9
Sara James	Arweinydd Cynnydd a Lles Dros Dro 6&7
Michelle Matthys	Cynorthwydd Dysgu L2 (mamolaeth)
Betsan Siôn	Cynorthwydd Dysgu L3 (cynnydd)
Elen Macey	Cynorthwydd Addysgu L1

Maent oll wedi ymrwymo i hybu gwerthoedd, safonau ac ethos yr ysgol.

## **NEGES GAN DR RHODRI THOMAS PENNAETH PENWEDDIG MEDI 2020**

Ar ddechrau mis Mawrth cefais y ffrind o gael fy mhenodi yn bennaeth newydd ar gyfer Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig ac mae'n anodd credu cymaint sydd wedi digwydd ers hynny. Byddaf yn cymryd yr awenau ar ddechrau mis Medi ac edrychaf ymlaen at weld holl gymuned Penweddig yn dychwelyd i safle'r ysgol am y tro cyntaf

ers mis Mawrth. Bydd hwn yn gyfle i ni gamu tuag at normalrwydd, ond byddwn yn parhau i ddilyn cyngor yr arbenigwyr.

Hoffwn ddiolch i Miss Morgan am ei gwaith caled fel pennaeth dros-dro, a diolch i'r holl staff am eu hymdrech dros y cyfnod anodd hwn. Gwerthfawrogaf gyfraniad pob aelod o gymuned yr ysgol dros y misoedd diwethaf ac mae hwn, wrth gwrs, yn cynnwys eich cyfraniad allweddol chi fel teuluoedd. Mae eich cefnogaeth yn allweddol wrth i ni edrych tuag at y dyfodol a cheisio sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl er mwyn iddynt lwyddo yn academiaidd, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

Ar ddechrau Medi byddaf yna i groeso disgyblion blwyddyn 8 i 13 yn ôl, a chroeso disgyblion blwyddyn 7 am y tro cyntaf. Gobeithiaf fyddaf hefyd yn cael y cyfle i siarad â llawer o rieni a gofawyr dros y misoedd nesaf.

Tan hynny, dymunaf wyliau hapus a diogel i chi oll,

Dr Rhodri Thomas  
Pennaeth (Mis Medi)



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN  
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E [ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk)

## CYLCHLYTHYR PENWEDDIG RHIFYN GORFFENNAF

Mae rhifyn Gorffennaf "Pobl Penweddig" ar gael nawr gerfydd y linc isod:

[https://issuu.com/ygpenweddig/docs/poblpenweddig\\_haf2020](https://issuu.com/ygpenweddig/docs/poblpenweddig_haf2020)

Diolch yn fawr i Mr Jonathan Brayley, Mrs Rachel Jenkins, Miss Hawis Lloyd a Mrs Eirian Davies am baratoi a golygu'r rhifyn.

Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawi bob un o'n disgyblion nôl i'r ysgol ym mis Medi wrth i ni baratoi ar gyfer y 'norm newydd'. Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus yn ystod y flwyddyn academaidd hon, yn enwedig yn ystod y misoedd diwethaf. Hoffwn hefyd ddiolch i bob aelod o staff Penweddig am eu hymdrechion a'u gwaith caled yn ystod y flwyddyn academaidd ddigynsail hon.

Byddwch yn derbyn gohebiaeth bellach gennyf yn ystod yr Haf er mwyn eich hysbysu a'ch diweddarau o unrhyw newyddion a newidiadau i'r drefn. Mae croeso i chi hefyd f'ebostio drwy [ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk).

Gan ddymuno Haf hapus a gorffwysol i chi gyd. Cadwch yn ddiogel a chymerwch ofal.

Yn ddiffuant,

Rhian Morgan  
Pennaeth Dros-Dro